## ❖ Gogoniant Iesu

Arglwydd annwyl, helpa fi i gadw fy ngolwg arnat ti:
ti yw'r ymgnawdoliad o gariad dwyfol,
y mynegiant o dosturi anfeidrol Duw,
yr amlygiad gweladwy o sancteiddrwydd y Tad.
Ti wyt brydferthwch, daioni, tynerwch,
maddeuant a thrugaredd;
ynot ti y mae pob perffeithrwydd:
pa ddiben edrych i gyfeiriad arall,
a mynd i unman arall, ond atat ti?
Gennyt ti y mae geiriau bywyd tragwyddol,
gennyt ti y mae bwyd a diod i'n heneidiau,
ti yw'r ffordd, y gwirionedd a'r bywyd,
ti yw'r goleuni sy'n llewyrchu yn y tywyllwch,
y llusern sy'n goleuo'n llwybr,
y tŷ ar fryn na ellir ei guddio;
ti yw'r eicon perffaith o Dduw;
ynot ti a thrwot ti y canfyddaf y ffordd at y Tad nefol.
O Sanctaidd Un,
O brydferth a gogoneddus un,
ti yw fy Ngwaredwr, fy Arglwydd,
fy arweinydd, fy niddanydd,
fy ngobaith, fy llawenydd, fy nhangnefedd.
I ti y dymunaf fy rhoi fy hun yn gwbl oll:
gad i mi fod yn hael ac yn eiddgar,
nid yn hwyrfrydig nac yn anfoddog,
ond yn barod i roi fy mhopeth i ti –
popeth a feddaf, a feddyliaf ac a deimlaf –
ti biau'r cyfan, O Arglwydd,
i'w derbyn a'u sancteiddio,
a'u gwneud yn eiddo llwyr i ti dy hun.

**Henri Nouwen**